Papur Bro Abertawe

WILIA

RHIFYN 488 TACHWEDD 2026 | AM DDIM

DATHLU 50 MLYNEDD O GYMDEITHAS GYMRAEG LLANDEILO FERWALLT - MARTIN JONES



Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt ar y 19eg o Hydref pan ddaeth 30 o aelodau (gan gynnwys 8 aelod newydd) i gael eu swyno gan y delynores, Delyth Jenkins. Cychwynnwyd y cyfarfod gan ein cadeirydd, Prys Morgan, yn ei ffordd ddigyffelyb, ac roedden ni'n synnu o ddysgu taw ym mis Hydref, 1976 y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas - a thrwy gyd-ddigwyddiad anhygoel telynores arall, sef Catherine Watkin, oedd y wraig wadd yn y cyfarfod hwnnw. Yn anffodus roedd yn rhaid i Prys gyfeirio at y ffaith bod Catherine Watkin wedi marw yn 96 oed yr wythnos flaenorol. Syniad Joyce Morgan oedd sefydlu'r Gymdeithas ac mae cymuned Gymraeg Abertawe yn ddyledus iddi am ei holl waith caled dros yr iaith. Ac, wrth gwrs, diolch yn fawr iawn hefyd i bawb - yn enwedig ein cadeirydd, Prys Morgan - sy wedi rhoi eu hamser i sicrhau bod y Gymdeithas yn parhau i ffynnu.

Roedd yn bleser mawr i groeso Delyth Jenkins yn ôl i'n diddanu ddwy flynedd ers iddi agor ein tymor 2024/25. Sgwrsiodd Delyth am ei bywyd yn gerddores yn ogystal â'n swyno ni wrth ganu nifer o alawon ar ei thelyn. Esboniodd y cana hi'r delyn ym mhob math o ddigwyddiadau: er enghraifft, priodasau, angladdau, seremonïau sifil, a hyd yn oed achlysuron fel ymweliad Hillary Clinton ag Abertawe! A gweithia hi gyda mamau ifanc a chyda phobl sy'n dioddef gan broblemau iechyd meddwl, gwaith sy'n rhoi llawer o foddhad iddi.

Roeddwn i'n synnu o glywed faint o gerddoriaeth yr ysgrifenna Delyth ei hunan - er enghraifft, alawon i ddathlu pethau fel genedigaeth babi (a chlywon ni'r alaw hyfryd "Rosa's Waltz"); cerddoriaeth ar gyfer dramâu, gan gynwwys "Midsummer Night's Dream", "Mother Courage" gan Brecht, a "Wild Wales" gan George Borrow; heb sôn am yr alawon i'w gynnwys ar ei CD newydd y mae hi'n gobeithio y bydd yn cael ei ryddhau cyn, neu efallai ychydig ar ôl, y Nadolig. Ar hyn o bryd mae Delyth yn gweithio'n galed ar y nodiadau a gwaith celf ar gyfer y CD.

Gorffennodd Delyth ei sgwrs gan gyfeirio at ei thaith gerdded ar hyd llwybr arfordir Sir Benfro ychydig o flynyddoedd yn ôl, a siaradodd am y cymysgedd o lawenydd a thristwch roedd hi'n ei deimlo ar ddiwedd profiad arbennig o dda. Canlyniad y teimladau hyn oedd yr alaw "Leaving Amroth" a ganodd hi i ddod â'r noson i ben.

Ar ddiwedd ei sgwrs, roedd cyfle i brynu CDs a llyfrau yn "Siop Delyth" wrth i bawb fwynhau dysglaid a thipyn o gymdeithasu.

Diolch yn fawr, Delyth, am noson mor wych – rydyn ni i gyd yn edrych ymlaen at wrando arnat ti eto yn y dyfodol agos.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Murton am 19.00 ar y 16eg o Dachwedd pan fydd ein cadeirydd, Prys Morgan, yn siarad am y mathemategydd Rwsiaidd, Viktor Maslov, a'i berthynas annhebygol â Phenrhyn Gŵyr. Rydw i wedi clywed fersiwn byr Saesneg o'r sgwrs, a galla i addo noson ddiddorol dros ben.

Cynhelir ein cinio Nadolig ar y 14eg o Ragfyr, ac ar y 18fed o Ionawr bydd Heini Gruffudd yn siarad am "Ieuan Ddu a'r Gymraeg yn Abertawe." Croeso cynnes i bawb, siaradwyr a dysgwyr Cymraeg fel ei gilydd.

CÔR TŶ TAWE YN Y SANTES FAIR
-HEINI GRUFFUDD

Cafodd Côr Tŷ Tawe gymryd rhan yng nghyngerdd Band Pres y Waun yn eglwys y Santes Fair, nos Sul, Hydref 18.

Yn hanner cyntaf y noson adroddwyd hanes Aberfan yn deimladwy a grymus gan y Band.

Yn ogystal â chaneuon gan yr unawdydd pwerus Martin Lloyd, canodd y Côr chwe chân, gan orffen gyda cherdd Waldo, a cherddoriaeth Eric Jones, Y Tangnefeddwyr. Roedd canu hon yn yr eglwys gafodd ei bomio yn y rhyfel yn brofiad arbennig.

Arweiniwyd y côr gan Edward-Rhys Harry a Fiona Gannon yn cyfeilio.



Llun: Hywel Davies

MARW CYFEILYDD CÔR MEIBION DYFNANT
-HEINI GRUFFUDD

Gyda thristwch mawr y mae Côr Meibion Dyfnant yn cyhoeddi marwolaeth sydyn Tony Phipps, eu cyfeilydd.

Medd llefarydd y côr, "Mae'r newyddion trist hwn wedi'n llorio i gyd. Bu Tony yn rhan o deulu Côr Meibion Dyfnant am dros 40 mlynedd, yn gyntaf fel aelod o'r côr ac, yn ddiweddarach, fel ein cyfeilydd. Roedd ei ddawn gerddorol, ei ymroddiad a'i gyfeillgarwch yn golygu cymaint i ni gyd. Mae ei gyfraniad i'r côr dros gyfnod mor hir wedi bod yn amhrisiadwy, a bydd ei golled yn cael ei deimlo'n ddwfn gan bob un ohonom.

"Mae ein meddyliau a'n cydymdeimlad diffuant gyda'i deulu a'i anwyliaid yn ystod y cyfnod anodd iawn hwn.
"Bydd colled fawr ar ei ôl, a byddwn yn ei gofio gyda hoffter mawr."



YSGOL TAN Y LAN YN ENNILL GWOBRAU

Mae Ysgol Tan-y-Lan wedi ennill Gwobr Aur Gyrfaoedd Cymru a dod yn ail am arweinyddiaeth gyrfaoedd ar draws Cymru.
Mae'r gwobrau'n cydnabod gwaith yr ysgol wrth roi addysg gyrfaoedd yn rhan o fywyd yr ysgol, i helpu disgyblion i ddatblygu didfirdebau a dilyn cyfleoedd.
Meddai'r pennaeth, Berian Jones said: "Rwy'n hynod o falch o gymuned yr ysgol. Mae'r gwobrau'n cydnabod uchelgais a gwaith tîm wrth geisio cael pob disgybl i gyflawni'n llawn yn ôl eu gallu.
"Mae Mrs Davies y cydlynydd Gyrfaoedd yn haeddu clod arbennig."





AISHA O'R OLCHFA YN ENNILL LLYSGENNAD Y GYMRAEG

Mae Aisha, disgybl Blwyddyn 13 yn Ysgol yr Olchfa wedi ei dewis yn llysgennad y Gymraeg fel ownc ar gyfer y Coleg Cymraeg. Mae Aisha yn un o 30 o ddisgyblion sydd wedi eu dewis ar draws Cynmru. Y nod yw defnyddio ei brwdfrydedd dros y Gymraeg i hyrwyddo'r pwnc yn yr ysgol ac i ennyn diddordeb yn niwylliant Cymru.

Ychydig dros 100 o ddisgyblion a safodd Safon Uwch Cymraeg trwy holl ysgolion Saesneg Cymru y llynedd, a'r gobaith yw gweld y nifer hwn yn codi. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cynnal y Gymraeg yn bwnc yn ein prifysgolion ac er mwyn creu pobl fydd yn gallu gweithio trwy gyfrwng yr iaith.



NEWYDDION YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE

TAITH I'R LLYFRGELL GENEDLAETHOL- MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG



Aeth llond bws o fl.7 Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Cawsant weld Llyfr Gwyn Rhydderch a dysgu am lawysgrifau eraill, mynd ar daith o gwmpas y storfeydd gan weld hen fap o ardal yr ysgol, a chyfle i ymweld ag Archif Ddarlledu Cymru. Roedd yr ymweliad â McDonalds ar y ffordd adref wedi plesio hefyd!

WYTHNOS YNG NGHYMRU FYDD -MEINIR JONES, PENNAETH YR ADRAN GYMRAEG



Aeth criw o ddisgyblion hŷn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe i weld y ddrama 'Wythnos yng Nghymru Fydd' yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin. Drama bwerus a'r disgyblion wedi mwynhau'n fawr!

LLWYDDIANT CYSTADLEUAETH PRES -CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Llongyfarchiadau mawr i Llywelyn Gannon, blwyddyn 12, ar ei lwyddiant yng nghystadleuaeth West Wales Brass Association y penwythnos diwethaf. Enillodd wobrau aur yng nghategori dosbarth 3 a 4 gyda Band Arian Gwaun Cae Gurwen a Band Pres Cwmtawe. Gwych!



PRENTISIAETH GYDA RED BULL
-CATRIN LYALL, IS-BENNAETH Y CHWECHED

Hyfryd yw gweld llwyddiant ein cyn-ddisgyblion yn dilyn llwybrau gwahanol mewn bywyd. Dyma Evan, a lwyddodd i ennill prentisiaeth gyda Red Bull F1 llynedd ar ôl astudio yn y chweched gyda ni. Rydym yn hynod falch ohonot ac yn gyffrous iawn i ddilyn dy anturiaethau, Evan!



NEWYDDION YSGOL GYFUN GŴYR

YMWELIAD BLWYDDYN 9 Â GLAN-LLYN
-NON LEWIS, ADRAN Y GYMRAEG



Yn nhymor yr hydref, cafodd criw Blwyddyn 9 gyfle gwych i ymweld â Glan-llyn am brofiad cofiadwy a llawn gweithgareddau. Roedd y daith yn gyfle arbennig i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth yn awyrgylch hwyliog Glanllyn. O gymryd rhan mewn gweithgareddau anturus i gymdeithasu yn y gwersyll, cafodd pawb lawer o gyfleoedd i ddatblygu eu hyder a'u rhuglder yn y Gymraeg, ac roedd ambell un wedi syrthio i'r llyn wrth wneud hynny!

Fel rhan o'r ymweliad, aeth y grŵp i Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog i ddysgu am hanes y diwydiant llechi a bywyd caled y gwiethwyr. Roedd yn brofiad arbennig iddyn nhw, a bydd nifer fawr ohonynt yn astudio'r nofel Llechi, Manon Steffan Ross y flwyddyn nesaf.

Cyn ymadael, roedd amser am ychydig o hwyl yn Bounce Below, lle mwynhaodd y disgyblion neidio, dringo a chwarae cwato ar y trampolinau tanddaearol unigryw sydd yno. Taith gyfoethog a chofiadwy i bawb.





Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Tachwedd.

Menter Iaith Abertawe sydd yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Rhagfyr erbyn Tachwedd 27ain trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG Dysgu Learn
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

THE SWANSEA FRINGE

MENTER IAITH ABERTAWE YN CYFLWYNO



SESIWN WERIN TŶ TAWE

28.11.2026 • 14:00–17:00

TŶ TAWE, ABERTAWE, SA1 4EW

LLWYFAN O ARTISTIAID GWERIN WEDI'I GYFLWYNO GAN DELYTH JENKINS & IAN 'TICH' THOMAS.


TRAD SHOWCASE STAGE PRESENTED BY DELYTH JENKINS & IAN 'TICH' THOMAS.

TŶ CERDD Music Centre Wales
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
menter iaith abertawe

DELWYN SIÔN

TŶ TAWE, 12.12.26

+ RHI JORJ



19:00 - £10 ADV

TICKETSOURCE.COM/MENTER-IAITH-ABERTAWE

menter iaith abertawe